# Buddion i Gyflogwyr

Ffit i Weithio

Gall cyflogwyr gyfeirio bellach. Gwasanaeth newydd, gwirfoddol yw Ffit i Weithio sydd yn darparu mynediad i gefnogaeth iechyd galwedigaethol i'r boblogaeth weithio ehangach. Mae'n darparu gwasanaethau pobl broffesiynol ym myd iechyd i bobl mewn cyflogaeth os ydynt wedi bod i ffwrdd o'r gwaith am bedair wythnos neu fwy oherwydd salwch neu faterion cysylltiedig. Mae wedi ei anelu at gynorthwyo gweithwyr trwy gau'r bwlch rhwng cyngor iechyd galwedigaethol a darparu cefnogaeth. Nodwyd y bwlch hwn yn 'Iechyd yn y gweithle – adolygiad annibynnol o absenoldeb oherwydd salwch' gan Y Fonesig Carol Black a David Frost CBE yn 2011 – ble cafodd ei weld fel un o'r materion oedd yn rhwystro pobl rhag dychwelyd i'r gwaith. Yn ogystal â hyn mae Meddygon Teulu yn cyfeirio cleifion cyflogedig at y gwasanaeth ac mae'n bosibl bod cyflogwyr eisoes yn gweld Cynlluniau Dychwelyd i'r Gweithle.

Dengys astudiaethau diweddar bod cynfodau hirion o ddiweithdra yn andwyol i iechyd, i les cymdeithasol ac ariannol Ffit i Weithio a pho hiraf mae rhywun o'r gwaith yn sâl, mwyaf anodd yw iddynt ddychwelyd i'r gwaith. Mae ymyriad wedi cyfnod o ryw bedair wythnos yn golygu eu bod yn fwy tebygol o ddychwelyd i'r gwaith na chyflwyno risg o absenoldeb hirach neu o adael y gweithle yn gyfangwbl.

**Mae dwy elfen i Ffit i Weithio:**
**1. Cyngor:** mynediad i gyngor ar iechyd a gwaith i weithwyr, i gyflogwyr a'u MT trwy wefan a llinell gymorth Rhadffon.
**2. Asesiad:** gall gweithwyr gael eu cyfeirio gan eu cyflogwyr ar gyfer asesiad ffôn (45 munud) gydag aelod cymwys o'r tîm gofal iechyd proffesiynol.

## C&A – Mae'r canlynol yn ateb cwestiynau nodweddiadol cyflogwyr

**Pwy sy'n gymwys?**
Gwasanaeth yw Ffit i Weithio i bobl sydd mewn cyflogaeth, nid i'r diwaith. Mae gweithwyr yn gymwys os ydynt wedi bod i ffwrdd o'r gwaith am bedair wythnos oherwydd salwch, ac sydd â rhagolygon realistig o ddychwelyd i'r gwaith.

**Sut medraf gyfeirio rhywun at Ffit i Weithio?**
Medrwch gyfeirio gweithwyr cymwys i'r gwasnaeth trwy www.FitforWork.org neu trwy alw 0800 032 6235.

**Oes yn rhaid i'm gweithwyr Gydsynio?**
Oes. Gwasanaeth gwirfoddol yw hwn. Rhaid i weithwyr roi caniatad ar lafar cyn cael eu cyfeirio ac yna rhannu eu Cynllun Dychwelyd i'r Gwaith gyda'u cyflogwr a/neu FT.

**Cynllun Dychwelyd i'r Gwaith:**
Unwaith mae gweithiwr iechyd proffesiynol wedi cynnal asesiad i ystyried y ffactorau a all effeithio ar allu gweithwyr i ddychwelyd i'r gwaith, caiff Cynllun Dychwelyd i'r Gwaith fesul cam ei gytuno gyda'r gweithwyr. Medrwch dderbyn Cynllun Dychwelyd i'r Gwaith fel prawf o absenoldeb o'r gwaith yn lle Nodyn Ffitrwydd, fel na fydd angen i'r gweithiwr ddychwelyd at y MT i gael Nodyn Ffitrwydd.

**Beth yw'r manteision?**
I'r Cyflogwr: Bydd yn golygu bod gweithwyr yn dychwelyd ynghynt i'r gwaith ac felly bydd cost absenoldeb oherwydd salwch yn llai. Bydd yn golygu hefyd bod gan gyflogwyr fynediad am ddim i gyngor parthed iechyd yn y gwaith ac asesiadau iechyd galwedigaethol i weithwyr sydd wedi cyrraedd, neu a ddisgwylir i gyrraedd dros bedair wythnos o absenoldeb oherwydd salwch. Yn ogystal â hyn, fe allech gael eich eithrio o dalu treth hyd at £500 (fesul blwyddyn, fesul gweithiwr) ar ymyriadau meddygol a argymhellir. I'r Gweithiwr: Mae hyn yn newyddion da i'r gweithiwr oherwydd gellir cefnogi'r rhai hynny sydd angen help i ddychwelyd i'r gwaith ynghynt. At hyn, gall Ffit i Weithio gau'r bwlch rhwng cyflogwyr a gweithwyr gyda chyngor a chefnogaeth annibynnol am iechyd galwedigaethol.

**Mae fy ngweithwyr yn poeni am bwy all gael mynediad i'r manylion byddaf yn eu cyflwyno i Ffit i Weithio. Pwy all gael mynediad i'r wybodaeth?**
Yr unig bobl all gael mynediad i'r wybodaeth fydd y rheolwyr achos fydd yn gweithio gyda'ch gweithiwr ar Gynllun Dychwelyd i'r Gwaith. Caiff yr wybodaeth ei thrin fel mater preifat a chyfrinachol (yn debyg i nodiadau MT am gleifion). Bydd yr holl wybodaeth yn cwrdd â gofynion Caldicott. Efallai bydd gofyn i weithwyr roi eu caniatad i'r wybodaeth gael ei defnyddio ar gyfer gwerthuso ac archwilio ond mae modd iddynt wrthod hyn.

# Fit for Work

## Sut i gyfeirio rhywun ar gyfer asesiad iechyd galwedigaethol Ffit i Weithio mewn tri cham hawdd.

**Os yw'ch gweithiwr yn gymwys (wedi bod i ffwrdd o'r gwaith yn sâl am 4 wythnos neu fwy) ac wedi cydsynio dilynwch y camau isod i gwblhau atgyfeiriad i'r gwasanaeth.**

### Cam 1. Ymweld

www.fitforwork.org/employer
a dewis y botwm **'cyfeirio gweithiwr'**




### Cam 2. Nodwch fanylion eich cwmni/ cyflogwr

(Unwaith yn unig mae angen nodi manylion cwmni)




### Cam 3.

Gwiriwch bod yr holl wybodaeth ar y ffurflen gyfeirio yn gywir a phwyswch anfon i gyfeirio eich claf i Ffit i Weithio




I ddysgu rhagor am sut y gall Ffit i Weithio eich helpu i ymdrin ag absenoldeb salwch, ymwelwch â

**www.fitforwork.org/employer/**

neu galwch y llinell gynghori Rhadffon ar:
**0800 032 6235** (Llinell Saesneg) neu
**0800 032 6233** (Llinell Gymraeg)

Yn yr Alban cysylltwch â: **0800 019 2211**
**www.fitforworkscotland.com**